

Cydymaith yr Academi Arweinyddiaeth Addysgol Genedlaethol
Gwahoddiad i benaethiaid wneud cais i ymuno â'r garfan beilot gyntaf o
Gymdeithion yr Academi

Yr Academi

Mae'r Academi Arweinyddiaeth Addysgol Genedlaethol yn ymrwymedig i sicrhau bod Cymru yn lle gwyh i fod yn arweinydd addysg ac i wireddu ein huchelgais feiddgar i ddysgwyr drwy sicrhau bod pob un o'n hysgolion yn cael eu harwain yn dda. O ganlyniad, byddwn yn ymrwymo i sicrhau mynediad cyfartal i weithgarwch datblygu arweinyddiaeth o ansawdd uchel i'r sawl sy'n gweithio mewn ysgolion i ddechrau, ac yna i'r rhai mewn lleoliadau addysg ehangach. Byddwn yn sicrhau, yn meithrin ac yn ysbrydoli arweinwyr ym mhob rhan o'r system addysg. Byddwn yn gwneud hyn mewn partneriaeth â'r sawl sydd â rôl i'w chwarae yn y gwaith o wireddu'r uchelgais ar gyfer y system addysg yng Nghymru.

Felly, er mai megis dechrau y mae'r gwaith o ddatblygu'r Academi, dyna pam ein bod yn chwilio am grŵp bach o benaethiaid effeithiol a chredadwy o bob cwr o Gymru i fod yn aelodau o'r grŵp cyntaf o Gymdeithion yr Academi. Bydd y Cymdeithion hyn yn chwarae rôl ddylanwadol yn ystod camau cyntaf y gwaith o ddatblygu'r Academi.

Byddant hefyd yn chwarae rôl allweddol, ochr yn ochr â'r Academi, wrth wireddu'r uchelgais a amlinellir yn ['Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl'](#). Bydd y Cymdeithion yn fodolau rôl ar gyfer arweinyddiaeth mewn ysgolion ledled Cymru.

Er mwyn cefnogi'r rôl gyffrous a heriol hon, bydd y Cymdeithion yn cael y cyfle i gymryd rhan yn y rhaglen datblygu arweinyddiaeth gyntaf a lunnir ac a berchenogir gan yr Academi ei hun. Bydd y rhaglen hon, a gynigir i Gymdeithion yn unig, yn datblygu ac yn atgyfnerthu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt er mwyn ymgymryd â'r rôl strategol ac arwain system hon. Yn ystod y rhaglen, bydd y grŵp peilot cyntaf hefyd yn helpu i'w chydunio a'i mireinio ar gyfer carfannau yn y dyfodol.

Mae hwn yn gyfle unigryw i sicrhau bod gwaith yr Academi yn diwallu anghenion pob arweinydd yng Nghymru. Bydd y grŵp cyntaf hwn o Gymdeithion mewn sefyllfa unigryw i ddylanwadu ar waith cychwynnol yr Academi, helpu i sicrhau enw da'r Academi ymhlith arweinwyr ysgol a llywio rôl Cymdeithion yn y dyfodol.

Bydd rôl y Cymdeithion llwyddiannus yn cynnwys:

1. Sicrhau bod yr Academi yn deall y cyfraniad y mae arweinwyr ysgolion yng Nghymru yn ei wneud tuag at ddyfodol plant a phobl ifanc Cymru, a'i bod yn gallu diwallu eu hanghenion datblygu arweinyddiaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd, a'i bod yn gwneud hynny. Mae angen i'r Academi edrych a theimlo'n gredadwy i bob pennaeth yng Nghymru a bydd y Cymdeithion yn chwarae rôl allweddol yn hyn o beth drwy sicrhau bod cydberthynas waith agos ac effeithiol rhwng yr Academi ac arweinwyr ym mhob ysgol.
2. Cefnogi meysydd datblygu penodol drwy chwarae rôl ar weithgorau a phaneli a fydd yn cymeradwyo darpariaeth datblygu arweinyddiaeth, a sicrhau bod 'llais ymarferwyr' yn cael ei glywed yn yr Academi a thu hwnt.
3. Chwarae rôl allweddol wrth helpu i lunio, datblygu a chomisiynu darpariaeth datblygu arweinyddiaeth; cymryd rhan mewn gwaith ymchwil a fydd yn cefnogi ysgolion fel sefydliadau dysgu; a gweithio ar feysydd strategol allweddol o ran gwelliant system gyfan.

4. Chwarae rôl allweddol wrth feithrin gallu ac adnoddau 'arweinyddiaeth system' ledled Cymru ac wrth helpu penaethiaid profiadol i ddatblygu'r gallu i gefnogi arweinwyr eraill.
5. Helpu i ddatblygu'r rhaglen ar gyfer Cymdeithion yr Academi yn y dyfodol gan ddefnyddio'r cam peilot fel llwyfan i wella.

Ymrwymiad amser

Bydd yr ymrwymiad amser a ddisgwylir ar gyfer ymgymryd â'r rôl hon yn amrywio o wythnos i wythnos ac yn unol â diddordeb ac arbenigedd y Cydymaith, ond ni ddisgwylir iddo fod yn fwy na diwrnod yr wythnos am y flwyddyn gyntaf. Mae cyfnod ymgysylltu pellach o ddwy flynedd yn debygol, a thrafodir lefelau ymgysylltu a chydabyddiaeth yn y dyfodol rhwng y Cymdeithion a'r Academi.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf, bydd y Cydymaith yn cymryd rhan mewn rhaglen datblygu arweinyddiaeth system strategol o ansawdd uchel hefyd. Nid yw union ddyluniad y rhaglen hon wedi'i gytuno'n derfynol eto ond disgwylir y bydd angen ymrwymiad amser o rhwng 8 a 10 diwrnod. Bydd rhai ohonynt yn sesiynau gyda'r nos ac mae'n bosibl y cynhelir sesiynau ar y penwythnos hefyd.

Caiff y rhaglen ei llunio er mwyn cyflawni dau ganlyniad. Bydd yn datblygu'r sgiliau arweinyddiaeth sydd eu hangen i fod yn arweinydd system ac arwain diwygiadau strategol. Bydd yn helpu i'ch paratoi ar gyfer rôl Cydymaith yr Academi hefyd. Bydd yn cynnwys cyfres o seminarau craidd a gyflwynir gan gyflwynwyr rhyngwladol a chenedlaethol ac yn rhoi cyfle i chi gael eich hyfforddi gan uwch-arweinydd strategol a system. Bydd cyfle i'r grŵp cyntaf hwn o Gymdeithion gydweithio fel Cymuned Dysgu Proffesiynol, gan fynd i'r afael â materion o bwys cenedlaethol ar ran yr Academi a Llywodraeth Cymru. Er mwyn cefnogi hyn, mae'r cyfle i ymgysylltu â systemau rhyngwladol wrthi'n cael ei ystyried.

Rhoddir rhywfaint o iawndal i'r ysgol am ryddhau'r Cydymaith i gyflawni'r rôl. Bydd arian ar gyfer rhyddhau Cydymaith i gymryd rhan yn y rhaglen ddatblygu ar gael i benaethiaid sy'n addysgu yn unig.

Yn ystod y cyfnod cychwynnol o 12 mis, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfraniad o £12,000 i'r ysgol sy'n rhyddhau'r Cydymaith. Yn y dyfodol, yr Academi fydd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ariannu yn unol â'i blaenoriaethau cyffredinol, y gyllideb sydd ar gael a'r lefel o gyfranogiad sydd ei hangen gan y Cymdeithion.

Meini Prawf Dethol

Mae'r Academi yn awyddus i sicrhau bod y Cymdeithion yn adlewyrchu'r amrywiaeth o ysgolion ac arweinwyr ysgol yng Nghymru. Mae'r Academi yn ymwybodol bod penaethiaid effeithiol iawn yn gweithio mewn llawer o fathau gwahanol o ysgolion a lleoliadau. Bydd pob un o'r ysgolion hyn ar gamau gwahanol o'u taith gwella a gwahoddir pob pennaeth i ystyried i ba raddau y mae'n bodloni'r meini prawf isod a'r arbenigedd a'r profiad penodol y gall eu cynnig fel Cydymaith.

Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd carfan o tua 12 o Gymdeithion yn cael eu recriwtio o bob rhanbarth yng Nghymru.

Disgwylir i'r Cydymaith llwyddiannus ddangos y canlynol yn ei rôl gyfredol a/neu ei rolau blaenorol fel pennaeth:

- pennaeth sy'n gweithio mewn ysgol neu leoliad arall ar hyn o bryd ac sydd wedi arwain ysgol yn llwyddiannus am o leiaf bum mlynedd;
- gallu dangos gwelliant mewn amrywiaeth o feysydd yn ei ysgol(ion) neu leoliadau presennol neu flaenorol;
- gallu dangos effaith mewn ysgolion ar wahân i'w ysgol ei hun;
- gallu dangos profiad gwaith ehangach sydd wedi helpu i fynd i'r afael â materion system gyfan yn llwyddiannus ar lefel clwstwr, rhanbarthol neu genedlaethol;
- gallu dangos sut y caiff yr ymrwymiad i ysgolion yng Nghymru fel sefydliadau dysgu ei ddangos drwy ei arweinyddiaeth.

Bydd y grŵp cyntaf hwn o Gymdeithion yn gweithio gyda thîm dylunio a datblygu i gydlunio'r rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth i Gymdeithion ar gyfer carfannau dilynol, felly disgwylir i'r Cydymaith ymddiddori mewn datblygu arweinyddiaeth a dysgu oedolion hefyd.

Caiff y canlynol ei ystyried hefyd wrth asesu ceisiadau:

- Bydd angen i'r ymgeisydd sicrhau bod digon o adnoddau o ran arweinyddiaeth yn yr ysgol neu ar gael i'r ysgol drwy ei threfniadau cydweithio, fel bod darpar arweinydd yn gallu camu ymlaen ac arwain tra bod y Cydymaith i ffwrdd o'r ysgol yn gweithio yn y system ehangach.
- Bydd yr ymgeisydd yn fodel rôl i arweinwyr a'r proffesiwn addysgu yng Nghymru a bydd angen iddo ddangos sgiliau rhyngpersonol lefel uchel a sgiliau cyfathrebu effeithiol.
- Bydd yr ymgeisydd yn gweld gwybodaeth gyfrinachol a gwleidyddol sensitif a bydd angen iddo ddangos y gallu i weithio'n effeithiol yn y cyd-destun hwn.

Y Broses Gwneud Cais

Bydd angen i'r sawl sydd â diddordeb yn y rôl wneud y canlynol:

1. Ceisio cytundeb ei Gorff Llywodraethu a'r Cyfarwyddwr Addysg cyn gwneud cais am rôl Cydymaith yr Academi.
2. Sicrhau bod digon o adnoddau o ran arweinyddiaeth yn yr ysgol fel bod darpar arweinydd yn gallu camu ymlaen ac arwain tra bod y Cydymaith i ffwrdd o'r ysgol yn gweithio yn y system ehangach.
3. Cyflwyno datganiad personol a nodi dau ganolwr, gan gynnwys eu henwau a'u manylion cyswllt, o'r grŵp canlynol:
 - a. Cyd-bennaeth
 - b. Cynghorydd Herio
 - c. Cyfarwyddwr Addysg
 - d. Rheolwr Gyfarwyddwr consortiwm rhanbarthol
4. Rhaid i'r datganiad personol a'r ddau eirda gael eu cyflwyno i'w consortiwm rhanbarthol (rhestr gyswllt isod). Dylai'r datganiad personol adlewyrchu'r meini prawf dethol a dangos y profiad a'r arbenigedd y gall yr ymgeisydd eu cynnig fel Cydymaith.
 - Caiff eich cais ei asesu gan banel a fydd yn cynnwys Aelodau'r Academi a chynrychiolydd o'ch Consortiwm Rhanbarthol. Caiff ymgeiswyr llwyddiannus eu hysbysu'n ysgrifenedig yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 5 Chwefror neu erbyn y dyddiad hwnnw. Gweler yr amserlen isod.

- Bydd angen i'r panel dethol sicrhau bod y grŵp o Gymdeithion yn cynrychioli pob un o'r pedwar consortia rhanbarthol. Os na chaiff ymgeiswyr eu dethol y tro hwn, bydd cyfleoedd eraill ar gael.
- Mae'r Academi yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr sy'n dangos y gallu i weithio yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Amserlen:

Y broses gwneud cais yn agor • Hysbysebu ar sianeli cyfryngau Llywodraeth Cymru • Hysbysebu ar wefannau consortia, sianeli cyfryngau ac mewn cylchlythyrau	[insert live date]
Y broses gwneud cais yn cau	19 Ionawr
Consortia yn anfon yr holl geisiadau at Swyddog penodol Llywodraeth Cymru a rhestr fer yn cael ei llunio	19 – 28 Ionawr
Panel dethol Cymdeithion yr Academi	w/d 29 Ionawr
Llywodraeth Cymru yn hysbysu ymgeiswyr am benderfyniad y panel dethol ar ran yr Academi	w/d 5 Chwefror
Rhaglen datblygu arweinyddiaeth yn dechrau	1 Mawrth

I wneud cais, anfonwch eich cais i'ch consortia rhanbarthol lleol:

- Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS): Dr Kevin Palmer – kevin.palmer@sewaleseas.org.uk
- GWE: Rhys Howard Hughes – rhyshowardhughes@gwegogledd.cymru
- CSC: Anna Brychan – Anna.Brychan@cscjes.org.uk
- ERW: Yan James – yan.james@erw.org.uk

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Tanya Wigfall

Pennaeth Dysgu Proffesiynol, Arweinyddiaeth a Llywodraethwyr

Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion

Y Gyfarwyddiaeth Addysg

Llywodraeth Cymru

ffôn: 03000 25 11 01 neu 077 72 65 60 50

e-bost: Tanya.Wigfall@gov.wales

I gael rhagor o wybodaeth am yr Academi Arweinyddiaeth Addysgol Genedlaethol, gallwch weld y newyddion diweddaraf ar yr Academi yma:

<http://gov.wales/newsroom/educationandskills/2016/new-national-academy-for-educational-leadership-announced/?skip=1&lang=cy>